**CABINET Y CYNGOR**
**COFNODION**
**Hydref 7fed 2014**

**Yn bresennol** – Y Cynghorwyr : Dyfed Edwards, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, R H Wyn Williams, W Gareth Roberts, John Wyn Williams, Dyfrig Siencyn.

**Hefyd yn bresennol** – Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr (Gwasanaethau)), Rhian Tomos (Arweinydd Tîm Cefnogi'r Cabinet).

## 1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU

Croesawyd aelodau Cabinet, aelodau'r Wasg a'r swyddogion i'r cyfarfod.

Mynegodd yr Arweinydd gydymdeimlad dwysaf y Cabinet gydag Iwan G D Evans a'i deulu yn ei brofedigaeth o golli ei dad.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Fedi'r 16eg 2014.

## 6. STRATEGAETH ARIANNOL – TARGED ARBEDION AR GYFER YSGOLION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**PENDERFYNIAD**

- Gosod targed arbedion o £4.3m ar gyfer ysgolion i'w gyflawni dros y tair blynedd nesaf, gan ofyn i'r Aelod Cabinet dros Addysg arwain darn o waith

drwy gydweithio gyda'r Fforwm Cyllido Ysgolion i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwireddu'r targed hwnnw.

- Gofyn i'r Gweithgor gyflwyno'r gwaith hwnnw erbyn diwedd Ionawr 2015

- Dylai aelodaeth y Gweithgor gynnwys aelodau o'r Fforwm Cyllido Ysgolion yn ogystal â Chadeiryddion ac Isgadeiryddion y Pwyllgorau Craffu mewn rôl sylwebyddion yn unig.

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o'r gloch a daeth i ben am 1.45.

**CADEIRYDD**